GWLEIDYDDIAETH A CHYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL

Fel rheol, bydd gan unigolyn sydd wedi graddio mewn Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol y gallu i:

- Ddeall natur ac arwyddocâd gwleidyddiaeth fel gweithgaredd dynol.
- Defnyddio cysyniadau, damcaniaethau a dulliau i ddadansoddi syniadau, sefydliadau ac arferion gwleidyddol.
- Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau gwleidyddol gwahanol a natur a dosbarthiad pwer ynddynt; y cyd-destunau cymdeithasol, economaidd, hanesyddol, a diwylliannol y maent yn gweithredu ynddo, a'r berthynas rhyngddynt.
- Gwerthuso gwahanol ddehongliadau o faterion a digwyddiadau gwleidyddol.
- Deall natur ac arwyddocâd gwleidyddiaeth fel gweithgarwch byd-eang.
- Dangos dealltwriaeth o darddiad ac esblygiad gwleidyddiaeth ryngwladol.
- Casglu, trefnu a defnyddio tystiolaeth, data a gwybodaeth o ffynonellau sylfaenol ac eilaidd.
- Nodi, ymchwilio, dadansoddi, llunio a hyrwyddo atebion i broblemau.
- Cyflwyno dadleuon rhesymegol, cyfosod gwybodaeth a phwyso a mesur yn feirniadol.
- Ystyried eich dysgu eich hun a gofyn am adborth adeiladol a'i ddefnyddio.
- Rheoli eich dysgu eich hun yn hunan-feirniadol.
- Cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i adalw a chyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth ystadegol neu rifiadol.
- Gweithio'n annibynnol, gan ddangos crebwyll, eich bod yn gallu trefnu eich hun a rheoli amser.
- Cydweithio ag eraill i gyflawni amcanion cyffredin.

Trosolwg o Wleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

Mae gwleidyddiaeth yn ymdrin â datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o lywodraeth a chymdeithas. Mae'r rhyngweithio rhwng pobl, syniadau a sefydliadau yn ganolbwynt i ddeall sut mae gwerthoedd yn cael eu dyrannu ac adnoddau'n cael eu dosbarthu, yn lleol, adrannol, cenedlaethol, rhanbarthol a byd-eang. Mae dadansoddiadau o bwy sy'n cael beth, pryd, sut, pam a lle'n ganolog, a pherthnasol i bwer, cyfiawnder, trefn, gwrthdaro, cyfreithlondeb, atebolrwydd, gorfodaeth, sofraniaeth a gwneud penderfyniadau.

Mae Graddedigion Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol yn dilyn gyrfaoedd mewn amryw o feysydd gyda'r sector cyhoeddus yn boblogaidd. Rhai dewisiadau gyrfa yw'r Gwasanaeth Sifil gan gynnwys y Gwasanaeth Llysgenhadol, swyddog elusen, gweinyddwr addysg, swyddog addysg amgylcheddol, trefnydd digwyddiadau, swyddog ymchwil y llywodraeth, darlithydd, newyddiadurwr, lobïwr, ymchwilydd marchnad, dadansoddwr y cyfryngau, asiant i blaid wleidyddol neu swyddog ymchwil a threfnydd gwaith gwirfoddol. Gall graddedigion weithio hefyd ym maes bancio, gweinyddiaeth y Comisiwn Ewropeaidd, gweinyddiaeth sefydliadau rhyngwladol, cysylltiadau cyhoeddus, hyrwyddo gwerthiant ac ymchwil cymdeithasol.